# POLISI TALIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD

## CYNNWYS

0. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU

1. CWMPAS/PWRPAS

2. MANYLION Y POLISI A GWEITHDREFN

3. CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

4. DIFFINIADAU

5. DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

6. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7. GDPR

| Rhifyn | Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid | Perchennog y Ddogfen | Dyddiad Rhannu |
|---|---|---|---|
| 0 | Polisi Newydd | Aled P Davies | 10/04/2019 |
| 1 | Ail frandio | Aled P Davies | 08/10/2019 |
| 2 | Gwelliant i adlewyrchu newidiadau i'r 'Polisi Treuliau Aelodau Bwrdd a Chyfetholedig', ac i ddarparu eglurder o ran cymhwyso i Medra Cyfyngedig. | Aled P Davies | Hydref 2022 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 1.0 CWMPAS / PWRPAS

1.1 Pwrpas y polisi hwn yw rhoi tryloywder o ran dull Adra tuag at osod taliad cydnabyddiaeth ei Fwrdd. Mae’n manylu amcanion a phrosesau lle caiff lefelau tâl eu pennu.

## 2.0 MANYLION Y POLISI A GWEITHDREFN

2.1 Mae Adra wedi ymrwymo i ddenu a chadw Aelodau Bwrdd ac Aelodau Cyfetholedig sydd â’r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad addas, er mwyn cefnogi cyflawni amcanion strategol. Gwelir bod taliad cydnabyddiaeth Bwrdd yn ffordd o gyflawni’r amcan hwn ac felly mae’n hanfodol bod lefelau yn cael eu gosod ar gyfradd briodol a chystadleuol. Mae’r Polisi yn manylu’r fframwaith a phroses ar gyfer gwneud hyn a’i ddiben yw rhoi hyblygrwydd pan fo angen i ymdrin ag arferion sy'n newid yn y sector ac amcanion y sefydliad.

### 2.2 Adolygu ac Addasu Lefelau’r Taliad Cydnabyddiaeth

2.2.1 Bydd lefelau tâl yn cael eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd gan y Panel Penodi, Taliad Cydnabyddiaeth a Disgyblu (ARDP). Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar argymhelliad y Panel yma.

2.2.2 Bydd lefelau taliad cydnabyddiaeth yn cael eu meincnodi at ddibenion cyfarwyddyd yn unig yn erbyn cymaryddion perthnasol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw arolygon meincnodi CHC sydd ar gael, ymarfer tebyg yn Lloegr a'r Alban, arolygon eraill o dalu aelodau anweithredol cymdeithasau tai, unrhyw sefydliad cyhoeddus arall, lled-sefydliad anllywodraethol annibynnol (cwango), cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru a chymaryddion dielw ar gael ar y pryd). Bydd Adra yn ceisio talu ar lefelau +/-5% o daliad cydnabyddiaeth a gaiff ei gynnig gan gymdeithasau tai nid er elw o faint tebyg.

2.2.3 Ni fydd tâl Bwrdd Adra ar unrhyw adeg yn fwy na 1% o gyfanswm trosiant Adra.[1]

2.2.4 Wrth ddod i benderfyniad, efallai y bydd yr ARDP hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau a chymesuredd o ran:

- Maint a chyfansoddiad y Bwrdd
- Swyddogaethau a dyletswyddau Bwrdd a Phwyllgor
- Cyfrifoldebau’r rôl ac ymrwymiad amser
- Niferoedd y Staff

[1] Er eglurder, mae'r egwyddor hon yn ymwneud yn benodol â thâl. Fel y nodir yn adran 2.3 o'r Polisi hwn, mae Treuliau'n cael eu llywodraethu ar wahân.

- Unedau/poblogaeth sy'n cael eu gwasanaethu

2.2.5 Bydd yr ARDP yn gofyn am arweiniad a chymorth gan y Pennaeth Llywodraethu a / neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl. Lle'n briodol, bydd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i ddefnyddio cynghorydd allanol annibynnol i gefnogi gwaith yr ARDP.

2.2.6 Ar hyn o bryd, does dim darpariaeth ar gyfer taliad cydnabyddiaeth i aelodau Bwrdd yr Awdurdod Lleol sydd wedi'u penodi i'r Bwrdd. Bydd y mater yn cael ei adolygu'n gyson.

2.2.7 Bydd taliad cydnabyddiaeth aelodau anweithredol yn cael ei gyhoeddi yn y datganiadau ariannol blynyddol sydd wedi'u harchwilio. Bydd y rhain yn manylu lefelau'r taliad cydnabyddiaeth ar gyfer swyddi gwahanol.

**2.3 Talu Treuliau Aelodau Anweithredol**

2.3.1 Mae mater treuliau / lwfansau yn cael ei lywodraethu ar wahân o fewn y 'Polisi Treuliau Aelodau Bwrdd ac Aelodau Cyfetholedig'.

**2.4 Ymarferoldeb a Gweithredu**

2.4.1 Mae Adra yn cydnabod bod rolau gwahanol yn golygu cyfrifoldebau gwahanol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y lefelau taliad cydnabyddiaeth cyfredol ar gyfer rolau gwahanol (e.e. Cadeiryddion). Pan gaiff lefelau taliad cydnabyddiaeth eu hadolygu, gall yr is-bwyllgor barhau i wneud argymhellon gwahanol o'r fath. Bydd taliad cydnabyddiaeth ond yn cael ei wneud ar gyfer y swydd uchaf y mae'r unigolyn yn ei ddal - ni fydd unrhyw daliadau ychwanegol ar gyfer dal mwy nag un swydd (er enghraifft nifer o rolau fel Cadeirydd neu fod yn Bencampwr).

2.4.2 Bydd taliad cydnabyddiaeth yn cael ei dalu i aelodau unigol yn fisol mewn ôl-daliad drwy system cyflogres Adra gyda thaliadau yn cael eu gwneud drwy BACS. Bydd taliadau yn net o unrhyw ddidyniadau gofynnol ar gyfer treth a/neu gyfraniadau YG. Mae aelodau yn gyfrifol am ddarparu'r holl fanylion personol gofynnol i Ysgrifennydd y Cwmni er mwyn sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud. Ni fydd taliadau yn cael eu gwneud i gwmnïau gwasanaeth neu unrhyw gyfrif sydd ddim yn enw'r Aelod.

2.4. 3 Bydd taliad cydnabyddiaeth yn parhau yn ddarostyngedig i berfformiad boddhaol. Bydd Ysgrifennydd y Cwmni yn monitro cydymffurfiaeth aelodau unigol gyda'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r ymrwymiad amser disgwyliedig, a hefyd cydymffurfiaeth gyda dogfennau llywodraethu a fframweithiau perthnasol. Pan fydd unrhyw aelod yn methu ag ymgymryd â'u dyletswyddau neu gwrdd â safonau perfformio gofynnol, efallai y bydd taliad yn cael ei wrthod. Caiff amodau o'r fath eu manylu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

2.4. 4 Pan nad yw aelod unigol yn dymuno cael taliad cydnabyddiaeth, bydd dulliau amgen yn cael eu hystyried fel cyfraniad at sefydliad elusennol.

2.4. 5 Gall talu aelodau anweithredol effeithio eu treth a'u hawl i gael budd-dal. Polisi'r llywodraeth mewn perthynas â'r rheolau hyn yw osgoi twyll a sicrhau nad yw'r pwrs cyhoeddus yn talu pobl a all gael eu talu gan rywun arall. Nid yw gwrthod taliad, o reidrwydd yn golygu na fydd sefyllfa aelod anweithredol heb ei effeithio. Mae Adra yn ymwybodol o'r cymhlethdod sy'n ymwneud â deddfwriaeth o'r fath a bydd yn rhoi cymorth o ran cael cyngor proffesiynol ar effaith taliadau ar hawliadau budd unigolyn pan gaiff ei gytuno ymlaen llaw ag Ysgrifennydd y Cwmni.

## 3.0 CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

3.1 Y Pennaeth Llywodraethu sy'n gyfrifol am y Polisi hwn ac am ei weithredu yn effeithiol.

## 4.0 DIFFINIADAU

4.1 Er mwyn osgoi amheuaeth, ar gyfer y polisi hwn a'i ddibenion:

- Mae "Adra" yn cyfeirio at Adra (Tai) Cyfyngedig
- "ARDP": Panel Penodi, Taliad Cydnabyddiaeth a Disgyblu'r Bwrdd
- "Aelod Bwrdd" yn golygu unrhyw aelod sy'n gwasanaethu ar fwrdd neu bwyllgor Adra.
- "Aelod Cyfetholedig" yn golygu person sydd wedi'i gyfethol i wasanaethu ar y Bwrdd o dan Ran D3 o'r Rheolau. Mae'r polisi hwn yn gymwys yr un fath i Aelodau Bwrdd ac Aelodau Cyfetholedig - ar gyfer y dibenion hyn, mae cyfeirio at 'Aelodau' yn gymwys ar gyfer y ddau.

## 5.0 DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

5.1 Bydd y polisi bob amser yn adlewyrchu gofynion statudol a rheoleiddiol sy'n ymwneud â thaliad cydnabyddiaeth a bydd yn cael ei addasu yn unol â newidiadau o'r fath. Mae'r Polisi hwn yn perthyn yn agos at y canlynol a ddylid darllen y rhain ynghyd â'r polisi hwn:

- Polisi Treuliau Aelodau Bwrdd ac Aelodau Cyfetholedig Adra.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Bwrdd - Wrth gael eu penodi, bydd disgwyl i Aelodau Anweithredol lofnodi'r Cytundeb hwn, cyn bod tâl yn cychwyn. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r Polisi hwn yn rhan o'r Cytundeb.
- Cod Ymddygiad y Bwrdd

- Cylch Gorchwyl y Bwrdd a Phwyllgor, Proffiliau Rôl Aelodau Anweithredol - mae tâl ynghlwm â gwneud dyletswyddau penodol a gall unrhyw newidiadau o'r fath ddylanwadu ar lefelau tâl.
- Fframweithiau Gwerthuso'r Bwrdd
- Unrhyw fatrics neu werthusiadau'r Bwrdd
- Fframweithiau Datganiadau o Ddiddordeb
- Cod Llywodraethu CHC

## 6.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

6.1 Mae Adra yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn cwmpas ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun. Mae Adra wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac mae hyn yn ffactor i'w ystyried wrth ddefnyddio'r Polisi hwn.

6.2 Fel rhan o'i ddatblygiad, mae'r ddogfen hon a'i heffaith ar gydraddoldeb wedi cael ei sgrinio ar gyfer perthnasedd ac nid oes dim byd niweidiol wedi'i adnabod.

## 7.0 Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

7.1 Nid yw'r ddogfen hon yn ymyrryd ar hawliau unigolion o fewn y Ddeddf Diogelu Data 2018. Bydd unrhyw ddata sydd wedi ei gasglu ar gyfer y weithdrefn hon yn cael ei drin yn deg ac yn gyfrinachol.

7.2 Fel rhan o'i ddatblygiad, mae'r ddogfen hon a'i heffaith ar breifatrwydd data wedi cael ei asesu ac argymhellir nad oes angen Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data llawn.

## 8.0 Medra Cyfyngedig

8.1 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Polisi hwn yn ymwneud yn benodol â thaliad cydnabyddiaeth Bwrdd Adra, ac ni fwriedir iddo fod yn berthnasol yn ei gyfanrwydd i Medra Cyfyngedig. Yn unol ag Erthyglau Medra Cyfyngedig, mae tâl Cyfarwyddwyr Medra i'w gymeradwyo gan ei Riant (Adra). Bydd unrhyw adolygiad ar y mater hwnnw'n cael ei gydgysylltu gan Ysgrifennydd Cwmni Medra Cyfyngedig, a fyddai'n gwneud argymhelliad i Fwrdd Adra (os yw'n berthnasol). Mae'n debygol y byddai adolygiad o'r fath yn cael ei gefnogi gan gynghorydd allanol annibynnol, ac yn cael ei arwain gan ysbryd ac egwyddorion y Polisi hwn (lle'n berthnasol).